

Adroddiad i	Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	
Dyddiad	19 Hydref 2026	
Swyddog Arweiniol	Dawn Docx Prif Swyddog Tân	
Swyddog Cyswllt	Chris Dinwoodie Rheolwr Datblygu Sefydliad	
Pwnc	Adroddiad Blynyddol ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2026	

PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2026 i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, yn seiliedig ar ddyddiad statudol y ciplun, sef 31 Mawrth 2026.

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2 Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Gwybodaeth am y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau) yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr perthnasol gyhoeddi gwybodaeth ragnodedig am y bwlch cyflog rhwng y rhywiau bob blwyddyn. Mae'r adroddiad atodedig yn nodi data bwlch cyflog rhwng y rhywiau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) ar 31 Mawrth 2026.
- 3 Bwlch cyflog cymedrig y Gwasanaeth oedd 7.32%, a'r bwlch cyflog canol rifol rhwng y rhywiau oedd 11.70%. Mae'r ddau ganlyniad yn is na ffigurau cymharol y DU y cyfeirir atynt yn yr adroddiad.
- 4 Mae'r dadansoddiad yn dangos mai strwythur a chyfansoddiad y gweithlu sy'n cael y dylanwad pennaf ar y bwlch, gyda mwy o ddynion mewn swyddi ochr weithredol â chyflogau uwch. Mae menywod yn parhau i gael eu tangynrychioli ar draws y gweithlu, er bod eu cynrychiolaeth yn uwch yn y chwarterl cyflog uchaf.
- 5 Mae'r adroddiad hefyd yn nodi bylchau cyflog bonws Datblygu Cymhwysedd (DTC) cymedrig a chanolrifol y Gwasanaeth a chyfran y menywod a'r dynion sy'n cael taliad DTC, ynghyd â'r camau y bydd y Gwasanaeth yn eu cymryd i wella cynrychiolaeth, datblygiad a dilyniant. Nod hyn oll yw lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau dros amser.

SYLWADAU GAN DÎM ARWEINYDDOL Y GWASANAETH

- 6 Fe wnaeth y Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth ystyried a chymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau, gan gynnwys diwygiadau yn yr adroddiad terfynol.

ARGYMHELLION

- 7 Argymhellir bod yr Aelodau yn:
- i) nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau 2026; ac yn**
 - ii) cymeradwyo cyhoeddi Adroddiad Blynyddol Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2026 yn unol â'r gofynion cyfreithiol.**

CEFNDIR

- 8 Er mwyn adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau rydym yn mesur y gwahaniaeth rhwng enillion cyfartalog yr awr i fenywod a dynion ar draws sefydliad. Mae'n wahanol i gyflog cyfartal, sy'n ymwneud â gwahaniaethau mewn cyflog rhwng menywod a dynion sy'n gwneud yr un gwaith.
- 9 Mae'r adroddiad yn defnyddio'r rhyw a gofnodwyd yng nghofnodion AD/cyflogres y Gwasanaeth ar ddyddiad y ciplun statudol, sef 31 Mawrth 2026, ac mae'n cyflwyno'r mesurau rhagnodedig ar gyfer tâl fesul awr, chwartelau cyflog a thâl bonws.
- 10 Ar ddyddiad y ciplun, roedd y Gwasanaeth yn cyflogi 895 o weithwyr ar draws 989 o swyddi, gan gynnwys gweithwyr a oedd yn cyflawni mwy nag un swydd. O'r swyddi hyn, roedd 210 (21.2%) yn cael eu dal gan fenywod a 779 (78.8%) gan ddynion.

GWYBODAETH

- 11 Y bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau oedd 7.32%, gyda chyflog cyfartalog yr awr yn £19.15 i fenywod a £20.66 i ddynion. Y bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau oedd 11.70%, gyda chyflog canolrifol yr awr yn £17.86 i fenywod a £20.22 i ddynion.

- 12 Roedd menywod yn cyfrif am 17% o'r chwartel cyflog isaf, 14% o'r chwartel canol isaf, 23% o'r chwartel canol uchaf a 34% o'r chwartel uchaf. Mae hyn yn dangos bod menywod yn parhau i gael eu tangynrychioli ar bob lefel cyflog, er mai yn y chwartel uchaf yr oedd cynrychiolaeth ar ei orau.
- 13 Y bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau o ran bonws DTC oedd -9.23% o blaid menywod, a'r bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau o ran bonws DTC oedd 0%. Yn ystod y cyfnod adrodd, cafodd 13.9% o fenywod a 26.3% o ddynion daliad DTC. Mae'r adroddiad yn egluro bod hyn yn adlewyrchu cyfansoddiad y gweithlu a dosbarthiad taliadau DTC yn hytrach na gwahaniaethau mewn trefniadau cyflog neu driniaeth.
- 14 Mae'r adroddiad yn nodi ystod o gamau gweithredu i barhau i fynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y Gwasanaeth. Mae'r rhain yn cynnwys hyrwyddo cyfleoedd i fenywod fod yn ddiffoddwyr tân, monitro cyfraddau cwblhau DTC yn ôl rhywedd, ystyried y ffactorau sy'n rhwystro dyrchafiadau, gwella llwybrau datblygu a dilyniant ar gyfer staff corfforaethol, cefnogi diwylliant cynhwysol, datblygu cynllun gweithredu menapos, cynyddu gwelededd modelau rôl menywod a pharhau i ddatblygu'r rhwydwaith Menywod yn y Gwasanaeth Tân.

Goblygiadau

Amcanion Llesiant	Amcanion Llesiant: Mae'r adroddiad yn cefnogi amcanion llesiant y Gwasanaeth ac yn cyfrannu at nod llesiant cenedlaethol Cymru Sy'n Fwy Cyfartal yn enwedig, gan ei bod yn cefnogi camau i wella cydraddoldeb, cynrychiolaeth y gweithlu, datblygiad a dilyniant.
Cyllideb	Mae ceisiadau am gyllideb 2027/28 wedi'u cyflwyno i gefnogi'r gwaith hwn.
Cyfreithiol	Mae'n cefnogi cydymffurfiaeth â Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Gwybodaeth am y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau).
Staffio	Mae'n cefnogi gwaith y Gwasanaeth i greu gweithle amrywiol, cynhwysol yn unol â "Ein Gwerthoedd Craidd."
Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/ Y Gymraeg	Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg.
Risgiau	Byddai methu â chyhoeddi'r wybodaeth angenrheidiol yn creu risg gyfreithiol, risg lywodraethiant ac yn peryglu enw da. Mae

	parhau i fonitro'r bwloch hefyd yn cefnogi'r gwaith o adnabod problemau cynrychiolaeth a dilyniant y gweithlu.
--	--